**RHEOLAU SEFYDLOG 25.10 a 25.13**

GORCHYMYN CEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (YR A40)
GWELLIANT PENBLEWIN I BARC SLEBETS) 200-

1. Gosodwyd y Gorchymyn drafft uchod o flaen y Cynulliad ar 7fed o Fai 2008.

2. Rwyf wedi derbyn y deisebau canlynol yn gwrthwynebu'r Gorchymyn:

a) <u>Deiseb oddi wrth Gyngor Sir Penfro, ddyddiedig 3ydd o Fehefin 2008.</u>

   i) Sail y gwrthwynebiad yw na ddylai'r Gorchymyn, a fyddai'n awdurdodi Gweinidogion Cymru i adeiladu darn newydd o gefnffordd tua 4.6 km o hyd, gael ei wneud gan mai bwriad y Gweinidog yw adeiladu ffordd gerbytffordd sengl tair lôn (2 + 1) yn hytrach na ffordd ddeuol. Haeriad y deisebydd yw y byddai ffordd ddeuol yn well gwerth am arian.

   ii) Cyngor Sir Penfro yw'r unig lofnodwyr i'r ddeiseb.

   iii) Ar ôl ystyried y ddeiseb rwyf wedi penderfynu ei bod yn datguddio sail wreiddiol dros wrthwynebu'r Gorchymyn ac felly fe fydd y ddeiseb yn gorfod cael ei hystyried gan y Cynulliad o dan ddarpariaethau Rheolau Sefydlog 25.19 i 25.25.

   iv) Mae'r ddeiseb yn gwrthwynebu gwneud y Gorchymyn ac nid yw'n gofyn i ddiwygiadau gael eu gwneud iddo. Nid oes rhaid, felly, i mi wahodd gwrth-ddeisebau o dan Reol Sefydlog 25.17.

b) Deiseb ar ran Mr. K. Jones, Sunnyside Farm, Robeston Wathen, Sir Benfro, ddyddiedig 4ydd o Fehefin 2008

i) Sail y gwrthwynebiad yw na ddylai'r Gorchymyn, a fyddai'n awdurdodi Gweinidogion Cymru i adeiladu darn newydd o gefnffordd, gael ei wneud, gan y byddai'r darn hwnnw yn rhannu Sunnyside Farm yn ddwy a thrwy hynny cael effaith andwyol sylweddol ar y daliad.

ii) Mr. K. Jones (trwy ei gynrychiolydd, Mr. J.C.E. Nicholas, Syrfëwr Siartredig ) yw'r unig lofnodwr i'r ddeiseb.

iii) Ar ôl ystyried y ddeiseb rwyf wedi penderfynu ei bod yn datguddio sail wreiddiol dros wrthwynebu'r Gorchymyn ac felly fe fydd y ddeiseb yn gorfod cael ei hystyried gan y Cynulliad o dan ddarpariaethau Rheolau Sefydlog 25.19 i 25.25.

iv) Mae'r ddeiseb yn gwrthwynebu gwneud y Gorchymyn ac nid yw'n gofyn i ddiwygiadau gael eu gwneud iddo. Nid oes rhaid, felly, i mi wahodd gwrth-ddeisebau o dan Reol Sefydlog 25.17.

**Dafydd Elis-Thomas**
**Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol**
**9 Mehefin 2008.**